# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5** E+W

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 7** E+W

AMRYWIOL

*Darpariaeth bellach mewn perthynas â'r dreth*

**91 Arfer pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon** E+W

(1) Wrth arfer eu pwerau a'u dyletswyddau o dan y Ddeddf hon—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r amcan o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru;

(b) caiff Gweinidogion Cymru roi sylw i unrhyw faterion eraill sy'n briodol yn eu barn hwy.

(2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i arfer pwerau a dyletswyddau o dan adran 92.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 91 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 91 mewn grym ar 18.10.2017 gan O.S. 2017/955, **ergl. 2(h)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 91.